






Cylchlythyr CRhA Tymor y Haf



Dyma tua fy nhrydydd ymgais at y cylchlythyr hwn. Roedd fy un diwethaf ychydig cyn y Ffair Wanwyn, ond doedd hi ddim yn teimlo'n iawn cyhoeddi'r cylchlythyr heb gydnabod y gwaith caled a llwyddiant y digwyddiad hwnnw. Diolch i Judy am yr holl waith a wnaeth hi ar hyn. Roedd yn wirioneddol fuddiol cael cydlynnydd a oedd yn gallu dechrau'r paratodau ymhell ymlaen llaw. Nid oes gennym y ffigurau terfynol eto, ond roedd yn llwyddiant ysgubol. Diolch i'r holl wirfoddolwyr a chwaraeodd eu rhan, ac i bawb a fynychodd. Mae gwaith y Gymdeithas Rienï ac Athrawon (CRhA) yn wirfoddol i gyd, ac mae'r rhyddid i arwain ar brosiectau neu wirfoddoli ar gyfer rôl o fewn prosiect. Mae pob rhiant ac athro yn aelod yn awtomatig, ac mae pwyllgor etholedig sy'n sicrhau bod y cyfansoddiad yn cael ei gadw ato.

Wrth i ni ddechrau tymor olaf y flwyddyn ysgol hon, rwy'n cael fy atgoffa y bydd ein disgyblion Blwyddyn 6 yn paratoi ar gyfer yr ysgol uwchradd. Dymunaf yn dda iddynt wrth iddynt barhau â'u haddysg. Mae hyn hefyd yn golygu y bydd rhai rhieni'n gadael yr ysgol a'r CRhA. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cymorth wrth gefnogi mentrau'r CRhA. Mae rhai ohonoch yn aelodau o'r pwyllgor, felly byddwn yn chwilio am wirfoddolwyr i gymryd eu lle yn y swyddi hynny. Os oes gan unrhyw un diddordeb, byddwn yn hapus iawn i gael sgwrs anffurfiol. Hoffwn ddiolch i Dawn Kenyon am drefnu anrhegion Sul y Mamau a Sul y Tadau, a llawer o dasgau eraill ar gyfer diwrnodau chwaraeon, disgos a chyngherddau. Rhiant Blwyddyn 6 arall y bydda i'n drist iawn ei gweld yn gadael yw Nicki Wood-Jones (yr Ysgrifennydd presennol) am ei chefnogaeth a'i hymrwymiad dros y blynyddoedd - cofnodi cofnodion, siopa, gwirfoddoli mewn digwyddiadau, mae'r rhestr yn mynd ymlaen. Hi a'm hanogodd i ymgymryd â rôl y Cadeirydd, ac rwy'n falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni a faint rwyf wedi'i ddysgu ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwnnw.

Mae ein llwyddiannau eleni wedi bod yn wych.

- Disgo Calan Gaeaf – £370
- Raffl bingo – £170
- Gwerthu gwisg ysgol – £60
- Rafflau cyngherddau Nadolig – £770
- Cardiau Nadolig – £438
- Disgo Dydd Gŵyl Dewi – £400
- Anrhegion Sul y Mamau – £400
- Loteri rhieni – £850
- Bin ailgylchu dillad – £90
- Ap Easyfundraising – £100



Un pryniant eleni ar gyfer yr ysgol oedd piano newydd yn lle'r hen un. Diolch i gronfeydd y CRhA ac i roddion gan Lleisiau Clywedog (côr a oedd yn ymarfer yn yr ysgol), ynghyd â chasgliadau pellach dros y Nadolig, rydym o'r diwedd wedi gallu prynu'r piano, a gostiodd oddeutu £2000.

Mae pianos o ansawdd da yn fuddsoddiad hirdymor, ac mae sain glir a chytbwys yn hanfodol ar gyfer datblygu clustiau cerddorol. Mae cerddoriaeth mor bwysig, a bydd y piano hwn yn amhrisiadwy ar gyfer ymarferion côr a chyngherddau ysgol. Rydym wedi derbyn ceisiadau pellach am gyllid, sy'n mynd drwy'r broses gymeradwyo ar hyn o bryd. Bydd manylion y rhain ar gael yn fuan.

2026


Dros y tymor nesaf, byddwn yn lansio digwyddiad noddedig “£20.26 ar gyfer 2026” Y nod yw i bob cyfranogwr godi £20.26 drwy gyflawni gweithgaredd. Bydd y digwyddiad yn rhedeg tan 20 Mehefin, gyda gwobrau am y dull codi arian mwyaf arloesol ym mhob dosbarth. Bydd rhagor o fanylion a ffurflenni noddi ar gael yn fuan.

Mae gennym ddigon o gyfleoedd gwirfoddoli'r tymor hwn, felly os gallwch chi roi help llaw, neu os ydych chi eisiau cadw'n gyfredol gyda gweithgareddau'r CRhA, ymunwch â grŵp WhatsApp y gymdeithas. Dyma le rydym yn cyhoeddi ein ceisiadau am help. Ceir cymysgedd o geisiadau sy'n benodol i amser (megis helpu mewn digwyddiad) a cheisiadau nad ydynt yn benodol i amser (megis dylunio poster, gwneud ceisiadau am grantiau neu chwilio am wobrau raffl). Sganiwch y cod QR i ymuno. Bydd y cod QR ar gael yn ein holl ddigwyddiadau, felly siaradwch ag un o'r gwirfoddolwyr os hoffech ymuno.



Yn olaf, cynhelir ein cyfarfod CRhA nesaf ar ddydd Iau 21 Mai am 6pm yn yr ysgol.

PTA Summer Newsletter



This is about my third attempt at this newsletter. My last one was just before the Spring Fair, but it didn't seem right to publish the newsletter without acknowledging the hard work and success of that event.

Thank you Judy for the work you put into this. It was really beneficial to have a coordinator who could start the preparations well in advance. We do not have the final figures in yet, but it was a huge success. Thanks to all the volunteers who played their part and to all who attended.

The work of the PTA is all voluntary and there is the freedom to either lead on projects or volunteer for a role within a project. All parents and teachers are automatically members and there is an elected committee who ensure that the constitution it adhered to.

As we start the final term of this school year, I am reminded that our year 6 pupils will be preparing for secondary school. I wish them well as they continue their education. It also means that there are parents who will be leaving the school and the PTA. A huge thanks for all of your help in supporting the PTA initiatives. Some are committee members, so we will be looking for volunteers to replace them in their roles. If anyone is interested, I would be happy to have an informal chat.

I would like to thank Dawn Kenyon for sorting the Mothers and Fathers day gifts and many other tasks for sports days, discos and concerts. Another year 6 parent who I will greatly miss is Nicki Wood-Jones (current Secretary) for her support and commitment over the years, minute taking, shopping, volunteering for events, the list goes on. She encouraged me to take on the role of Chair and I am proud of what we have achieved and how much I have learnt since that AGM.

Our achievements this academic year have been fantastic.

Halloween disco - £370

Bingo raffle - £170

Uniform Sale - £60

Christmas concert raffles - £770

Christmas cards - £438

St David's Day disco - £400

Mothers Day gifts - £400

Parent lottery - £850

Clothes recycling bin - £90

Easyfundraising app - £100



One of our purchases for school has been a replacement piano.

Thanks to PTA funds and donations from Lleisiau Clywedog (a choir that rehearsed at the school), and further collections at

Christmas, we have finally been able to purchase the piano costing in the region of £2000. Good quality pianos are a long term investment and a clear, balanced sound is essential for developing musical ears. Music is so important and this piano will be invaluable for choir practices and school concerts.

We have received further requests for funds, which are currently going through the approval process. Details of these will be made available in due course.

2026

Over the next term we are launching a sponsored event “£20.26 for 2026” . The aim is for each entrant to raise £20.26 by carrying out an activity. The event will run until 20th June with prizes for the most innovative method of fundraising from each class. Further details and sponsor forms will be available soon.

We have plenty of volunteering opportunities this term, so if you can lend a hand, or just want to keep up to date with PTA activities, please join the PTA group on WhatsApp. This is where we publish our requests for help. There is a mixture of time specific requests (such as helping at an event) and non time specific requests (such as designing posters, applying for grants, or seeking raffle prizes). Scan the QR code to join. We will have the QR code available at all our events, so please speak to one of the volunteers if you wish to join.



**Finally, our next PTA meeting is on Thursday
May 21st at
6pm at school.**